

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

### Sesiwn gwrandawriad 6 – Yr Amgylchedd naturiol ac adeiledig



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## Pwynt Gweithredu S6/PG8 (ii) – Gwarchodfa Natur Trwyn Wylfa

**Darparu papur cryno i roi diweddariad o'r gwaith ymchwil i sefydlu statws Trwyn Wylfa ("Wylfa Head")**

### Ymateb y Cynghorau

1 Mae'r Warchodfa Natur Leol ("GNLL") fel y'i datganwyd wedi cael ei ddangos ar y map cyfyngiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd arfaethedig (CDLIC) fel safle dynodedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael ei ddiogelu'n addas. Mae Hoizon wedi gwrthwynebu cynnwys y GNLL Trwyn Wylfa ar y map hwnnw oherwydd ei fod yn ystyried nad yw yn GNLL mwyach. Ystyriant bod gwerthiant safle y GNLL i Horizon gan Gyngor Cymuned Llanbadrig ("CCLI") a bod y cytundeb rheoli ar gyfer y safle bellach ddim mewn grym bod dyletswydd ar Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) o ran adran 19(3) y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ("y Ddeddf") i wneud datganiad nad ydi'r tir yn GNLL mwyach a dylai'r map cyfyngiadau nodi na fydd statws y GNLL yn gymwys.

2 Derbynia CSYM yn dilyn y gwerthiant i Horizon a heb unrhyw amodau ar y gwerthiant hwnnw yn darparu fel arall, nid yw'r tir yn cael ei reoli ar hyn o bryd fel GNLL, ac felly mae datganiad adran 19(3) yn ofynnol. Er bod y tir yn dechnegol yn dal yn GNLL ar hyn o bryd, mae'r Cynghorau yn cydsynio na ddylid ei gynnwys ar y map cyfyngiadau oherwydd byddai'r statws hwn yn anghynladwy. Mae'r broses i wneud y datganiad pellach angen cael ei wneud gan CSYM ac mae y tu allan i'r broses CDLIC. Mae gwneud datganiad pellach yn ei gwneud yn ofynnol i gael penderfyniad i wneud datganiad o'r fath gan CSYM, wedyn byd y datganiad yn cael ei gyflawni a'i gyhoeddi. Nid oes unrhyw amserlen a bennwyd ar gyfer cynnal y broses hon. Yn ymarferol bydd yr amserlen yn cael ei reoli gan amserlen cyfarfodydd y Pwyllgor perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau o fewn CSYM. Bydd hyn yn digwydd ar wahân gan CSYM.

3 Mae'r Cynghorau felly yn cytuno i ddileu'r dynodiad hwn oddi ar y map cyfyngiadau yn y CDLIC.

4 Bydd y CSYM yn trafod dyfodol statws y tir hwn gyda Horizon fel rhan o'i gynigion. Bu'n GNLL ers dros 12 mlynedd a bydd CSYM a'r gymuned leol yn debygol o geisio adfer y statws hwn maes o law. Er gwaethaf y newid yn statws y tir mae'n dal yn le agored lle mae'r cyhoedd wedi cael mynediad iddo ar gyfer hamdden awyr agored. Mae lleoliad y safle ar yr arfordir a'r ffaith ei fod wedi ei groesi gan, a mynediad hawdd i, nifer o'r llwybrau pwysig a

hawliau tramwy, ynghyd â fflora a ffawna a roddodd ddigon o werth iddo gael ei ddynodi fel gwarchodfa natur leol, yn cynyddu ei werth a'i sensitifrwydd. Mae colli'r mannau agored ac ymyrryd â mynediad cyhoeddus a hawliau tramwy yn ogystal â bioamrywiaeth yn golygu bydd angen mynd i'r afael â hyn yn llawn ar gam cynnar yn y ceisiadau sydd ar y gweill. Yn benodol bydd angen i'r cais paratoi a chlirio'r safle ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer y golled hon ac arweiniad gan y datblygwr ynglŷn â bwriad tymor hir ar gyfer yr ardal yma ar ôl adeiladu er mwyn gallu ystyried yr ardrawiadau'n llawn.